

# Lwfans Gweini

---



**Os oes gennych anabledd neu salwch a'ch bod chi wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, efallai y bydd gennych hawl i'r budd-dal hwn.**

Mae'r wybodaeth hon yn gymwys i bobl sy'n byw yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## Cynnwys

Beth yw Lwfans Gweini .....	2
Pwy sy'n gallu hawlio Lwfans Gweini? .....	3
Faint o Lwfans Gweini y byddwch yn ei dderbyn? .....	3
Ydw i'n bodloni'r profion? .....	4
Sut i hawlio Lwfans Gweini .....	7
Os oes gennych salwch angheuol .....	12
Y penderfyniad .....	13
Herio'r penderfyniad .....	13
Beth i'w wneud os bydd eich amgylchiadau'n newid .....	14
Help ychwanegol y gallech fod yn gymwys ar ei gyfer .....	16
Preswyliaeth a phresenoldeb .....	18
Help ychwanegol .....	20

## Beth yw Lwfans Gweini

Mae Lwfans Gweini'n fudd-dal a delir i bobl sydd wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ac sydd ag anghenion gofal, i helpu gyda'r costau ychwanegol o salwch neu anabledd hirdymor. Gellir talu Lwfans Gweini faint bynnag yw eich incwm, cynilion neu gofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol, ac mae'n fudd-dal di-dreth.

Os ydych yn ofalwr sydd ag anghenion gofal hefyd, gallwch hawlio Lwfans Gweini ar eich cyfer chi eich hunan, ac ni fydd yn effeithio ar eich Lwfans Gofalwr. Nid yw derbyn Lwfans Gweini'n lleihau budd-daliadau eraill - gallai hyd yn oed eu cynyddu.

Os oes gennych ofalwr, yna efallai byddai hawlio Lwfans Gweini'n eu helpu i fod yn gymwys ar gyfer budd-daliadau penodol (fel Lwfans Gofalwr). Hefyd, gallai Lwfans Gweini roi'r hawl i chi a/neu eich gofalwr gael cymorth ychwanegol gyda'r Dreth Gyngor.

Ni cheir unrhyw gyfyngiadau ynghylch sut y gallwch wario eich Lwfans Gweini, ac nid oes rhaid i chi ei wario i dalu am y gofal sydd ei angen arnoch. Fodd bynnag, gall eich cyngor neu ymddiriedolaeth ystyried Lwfans Gweini pan fyddant yn cyfrifo faint y byddai ei angen arnoch i dalu am unrhyw wasanaethau gofal rydych yn eu derbyn.

Ni fydd Lwfans Gweini'n berthnasol i chi:

- os ydych chi rhwng 16 oed ac o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Dylech hawlio Taliad Annibyniaeth Personol (TAP) yn ei le.
- os ydych chi wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ond yn derbyn Lwfans Byw i'rAnabl (LBA) neu TAP yn barod.

▶▶ **Noder:** I wirio pryd y byddwch chi'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ewch i [gov.uk/state-pension-age](http://gov.uk/state-pension-age)

## Pwy sy'n gallu hawlio Lwfans Gweini?

I fod yn gymwys i dderbyn Lwfans Gweini, mae'n rhaid i chi gwrdd â'r holl feini prawf canlynol:

- bod dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth
  - angen help i ofalu amdanoch chi eich hunan oherwydd bod gennych anabledd neu salwch (a allai fod yn gorfforol neu'n feddyliol).
  - eich bod chi wedi cael yr anabledd neu'r salwch am o leiaf chwe mis (gallwch hawlio cyn bod y chwe mis wedi dod i ben, ond ni fyddwch yn derbyn unrhyw daliad cyn hynny)
  - nad oes gennych unrhyw amodau mewnfudo'n gysylltiedig â'ch cyfnod yn y DU yn amodol ar rai eithriadau (os oes gennych gyfyngiadau mewnfudo ar eich cyfnod yn y DU, gall hawlio budd-daliadau effeithio ar eich hawl yn y dyfodol i aros yn y DU, felly gofynnwch am gyngor mewnfudo arbenigol cyn gwneud cais - gallwch chwilio am arbenigwyr mewnfudo ar [find-legal-advice.justice.gov.uk/](https://www.find-legal-advice.justice.gov.uk/) (Cymru, Lloegr a'r Alban) neu [lawsoc-ni.org/solicitors](https://www.lawsoc-ni.org/solicitors) (Gogledd Iwerddon).
- cwrdd â'r amodau preswyliaeth a phresenoldeb

▶▶ **Noder:** Os oes gennych salwch angheuol, ceir rheolau symlach sy'n gwneud y broses o wneud cais yn haws – ewch i dudalen 12 i gael manylion.

## Faint o Lwfans Gweini y byddwch yn ei dderbyn?

Ceir dwy elfen o Lwfans Gweini

Cyfradd	Swm yr wythnos 2023/24
Uwch	£101.75
Is	£68.10

Byddwch yn derbyn cyfradd **uwch** y Lwfans Gweini os ydych yn cwrdd ag un o'r meini prawf canlynol:

- eich bod yn bodloni'r profion yn ystod y dydd yn ogystal â'r nos
- eich bod yn angheuol sâl (ystyrir rhywun fel bod yn angheuol sâl os na ddisgwylir iddynt fyw'n hirach na chwe mis)

Byddwch yn derbyn cyfradd **is** y Lwfans Gweini os ydych yn

- bodloni'r profion yn ystod y dydd a'r nos

Mae rheolau penodol yn gymwys i rai cleifion yr arenau sy'n derbyn dialysis arenol o leiaf ddwywaith yr wythnos.

## Ydw i'n bodloni'r profion?

Gellir talu Lwfans Gweini os oes angen help arnoch gyda'ch gofal personol neu rywun i sicrhau eich bod yn iawn. Y term a ddefnyddir os ydych chi angen help gyda gofal personol yw sylw a'r term a ddefnyddir ar gyfer bod angen rhywun i sicrhau eich bod yn iawn yw goruchwyliaeth – ewch i dudalennau 4-5 i gael mwy o wybodaeth.

▶▶ **Noder:** Yr hyn sy'n bwysig yw eich bod chi naill ai angen sylw neu oruchwyliaeth, nid a ydych yn derbyn pob cymorth posibl sydd ei angen arnoch ar hyn o bryd. Felly, cofiwch feddwl am yr help sydd ei angen arnoch, nid yr help rydych yn gael ar hyn o bryd yn unig.

## Prawf yn ystod y dydd

I fodloni'r prawf yn ystod y dydd, mae angen i chi ddangos bod angen y naill neu'r llall o'r canlynol arnoch yn rhesymol:

- help cyson gyda gofal personol trwy gydol y dydd (hy tua thair gwaith neu fwy)
- rhywun i sicrhau eich bod yn iawn yn rheolaidd (hy yn aml neu'n gyson) trwy gydol y dydd i sicrhau eich bod yn ddiogel.

## Prawf yn ystod y nos

I fodloni'r prawf yn ystod y nos, mae angen i chi ddangos bod angen y naill neu'r llall o'r canlynol arnoch yn rhesymol:

- help gyda gofal personol o leiaf ddwywaith y nos, neu unwaith y nos am o leiaf 20 munud
- rhywun i sicrhau eich bod yn iawn o leiaf ddwywaith y nos, neu unwaith y nos am o leiaf 20 munud i sicrhau eich bod yn ddiogel.

▶▶ **Noder:** Os nad oes unrhyw un yn eich helpu gyda gofal personol ar hyn o bryd, efallai y byddech yn cael eich ystyried o hyd fel rhywun sydd angen help os ydych chi'n cael trafferth ymdopi.

Os nad oes neb yn sicrhau eich bod yn iawn ar hyn o bryd, efallai y byddwch yn cael eich ystyried o hyd fel rhywun sydd angen goruchwyliaeth, os byddech chi neu unigolyn arall mewn perygl heb y cymorth hwn.

## Sylw - help gyda gofal personol

Mae anghenion gofal personol yn cynnwys help gyda phethau fel:

- eistedd ar gadair a chodi oddi arni
- ymdrochi ac ymolchi

- gwisgo a dadwisgo
- help gyda meddyginiaeth a thriniaeth
- mynd i'r gwely a chodi a chysgu
- cyfathrebu
- bwyta ac yfed
- gweld (hy mae angen rhywun arnoch i weld drosoch)
- anadlu
- defnyddio'r tŷ bach
- cerdded

Fel arfer, mae'n rhaid bod yr help yn cael ei roi gyda chi'n bresennol. Dyma rai enghreifftiau o'r help y gallai fod ei angen arnoch:

- mae gennych arthritis sy'n gwneud symud yn anodd - mae angen rhywun arnoch i'ch helpu gyda gweithgareddau bob dydd fel mynd i'r gwely/codi o'r gwely, ymolchi a gwisgo ac eistedd ar gadair/codi o gadair
- rydych yn hollol fyddar ac iaith Arwyddion Prydain yw eich iaith gyntaf - mae angen dehonglwr arnoch pan fyddwch yn cyfathrebu heb iaith arwyddion, i ddehongli cyhoeddiadau llafar, ac efallai hefyd i ddehongli Saesneg ysgrifenedig
- mae gennych broblem iechyd meddwl ac mae angen anogaeth arnoch i ofalu amdanoch eich hun ac i wneud pethau fel cymryd eich meddyginiaeth, bwyta, ymolchi a gwisgo
- mae gennych nam ar eich golwg ac mae angen rhywun arnoch i gynorthwyo mewn sefyllfaoedd fel dewis dillad i'w gwisgo, defnyddio offer coginio'n ddiogel a pharatoi bwyd
- mae gennych anabledd dysgu ac mae angen help arnoch gyda gweithgareddau sy'n cynnwys rheoli arian, ysgrifennu llythyron a gofalu am eich iechyd a'ch hylendid.

## Goruchwyliaeth - angen rhywun i sicrhau eich bod yn iawn

I fod yn gymwys o ran bod angen goruchwyliaeth arnoch, mae'n rhaid bod angen rhywun arnoch i sicrhau eich bod yn iawn yn rheolaidd. Mae'n rhaid mai pwrpas yr ymweliadau yw atal 'perygl sylweddol' i chi eich hunan neu eraill oherwydd eich anabledd.

Er enghraifft, efallai y bydd angen i chi gael rhywun i sicrhau eich bod yn iawn os ydych yn colli eich cof, mewn perygl o gwmpo, bod gennych ymwybyddiaeth wael o beryglon posibl, problemau ymddygiad difrifol, colli ymwybyddiaeth neu gael trawiadau.

Gall perygl sylweddol gynnwys sefyllfaoedd fel cwmpo, gadael y nwy arno, hunan-niweidio, trais tuag at eraill neu risg difrifol i'ch iechyd pe byddech yn cael eich gadael heb oruchwyliaeth. Nid oes rhaid i'r sefyllfa a allai fod yn beryglus ddigwydd yn aml, ond mae'n rhaid i chi gael rhywun i sicrhau eich bod yn iawn yn rheolaidd i leihau'r siawns o niwed.

## Sut i hawlio Lwfans Gweini

Cymru, Lloegr a'r Alban

- cysylltwch â'r Llinell Gymorth Lwfans Gweini ar **0800 731 0122** (ffôn testun **0800 731 0317**)
- ewch i [www.gov.uk/attendance-allowance](http://www.gov.uk/attendance-allowance) i lawrlwytho ffurflen hawlio

Gogledd Iwerddon

- cysylltwch â Disability and Carers Service ar **0800 587 0912** (ffôn testun: 0800 012 1574)
- ewch i [nidirect.gov.uk/articles/attendance-allowance](http://nidirect.gov.uk/articles/attendance-allowance) i lawrlwytho ffurflen hawlio

Os gofynnwch am ffurflen hawlio dros y ffôn, dylai gael ei stampio gyda'r dyddiad cyhoeddi. Telir y budd-dal o'r dyddiad hwn os yw'r cais yn llwyddiannus, ar yr amod eich bod yn dychwelyd y ffurflen o fewn chwe wythnos. Os nad ydych yn gallu cwblhau'r ffurflen erbyn y dyddiad hwn, rhowch wybod iddynt a gofynnwch am gyngor.

Os ydych yn lawrlwytho'r ffurflen hawlio neu'n derbyn un gan asiantaeth cyngor leol, bydd y cais yn cychwyn o'r dyddiad y derbynnir y ffurflen wedi ei chwblhau.

Darllenwch y ffurflen a'r nodiadau atodol cyn i chi ddechrau cwblhau'r ffurflen. Gallwch atodi tudalennau i'r ffurflen gais os ydych yn meddwl nad oes digon o le i esbonio'r help sydd ei angen arnoch. Cofiwch ychwanegu eich enw a'ch rhif yswiriant gwladol at y tudalennau ychwanegol.

## Cwblhau'r ffurflen hawlio

- Mae'r ffurflen yn un hir a chymhleth, felly cymerwch eich amser i gwblhau'r ffurflen, a chofiwch nad oes angen i chi ei chwblhau i gyd ar unwaith.
- Rhestrwch yr holl help sydd ei angen arnoch cyn cwblhau'r ffurflen hawlio.
- Byddwch yn onest gyda chi eich hun ynghylch pa mor hir mae'n cymryd i chi wneud pethau ac os gallwch eu gwneud yn ddiogel.
- Gofynnwch i'ch gofalwr, os oes un gennych, i restru'r holl help y maent yn ei roi i chi i sicrhau nad ydych yn anghofio nodi unrhyw beth.
- Cofiwch mai'r hyn sy'n bwysig yw a oes angen yr help arnoch, nid a ydych yn ei dderbyn yn barod.
- Meddyliwch am yr anawsterau sydd gennych a pha fath o help y byddai ei angen arnoch i wneud pethau'n haws.
- Os oes gennych offer neu addasiadau sy'n eich helpu gyda'ch bywyd pob dydd, esboniwch unrhyw help sydd ei angen arnoch i'w defnyddio, ac unrhyw help sydd ei angen arnoch gan unigolyn arall yn ogystal â'r offer a'r addasiadau.
- Cadwch ddyddiadur am tuag wythnos os ydych yn ansicr ynghylch faint o help sydd ei angen arnoch.



- Nid oes rhaid bod angen help arnoch bob dydd - y prawf yw 'y rhan fwyaf o'r amser' - os yw eich anghenion yn amrywio o ddydd i ddydd, rhestrwch yr help sydd ei angen arnoch ar bob diwrnod o'r wythnos neu'r mis, yn dibynnu ar faint mae'r patrwm yn amrywio.
- Peidiwch â meddwl yn unig am yr hyn sy'n digwydd ar ddiwrnodau da -rhowch ddarlun cyffredinol o'r help sydd ei angen arnoch.
- Esboniwch unrhyw gwympiadau neu ddamweiniau sydd wedi digwydd i chi.
- Cadwch gopi o'ch ffurflen.
- Gallech ofyn am help i gwblhau'r ffurflen hawlio gan asiantaeth cyngor leol - i gael mwy o wybodaeth am asiantaethau cyngor yn eich ardal – ewch i'r adran Help Ychwanegol i gael manylion.

Pan fyddwch yn llenwi'r ffurflen, y nod yw esbonio sut mae eich anabledd neu salwch yn effeithio arnoch. Mae'r ffurflen yn gofyn y canlynol i chi:

**Ymolchi, ymdrochi ac edrych ar ôl eich golwg** – oes angen help arnoch i:

- fynd i mewn ac allan o'r bath neu'r gawod?
- addasu rheolyddion cawod?
- eillio nue goluro?
- ymlochi?

**Mynd i'r tŷ bach** – oes angen help arnoch i:

- osod eich dillad yn iawn ar ôl defnyddio'r tŷ bach?
- ddod o hyd i'r tŷ bach mewn lleoedd anghyfarwydd?
- ddefnyddio'r tŷ bach yn ystod y nos?

newid dillad neu ddillad gwely os byddwch yn cael damwain?

**Gwisgo neu ddadwisgo** – oes angen help arnoch:

gyda ffasninau, lasys esgidiau a botymau?

i wybod pan fydd eich dillad y tu chwith allan?

i wisgo neu ddadwisgo?

**Cyfathrebu** – oes angen help arnoch i:

ddeall neu glywed pobl neu i gael?

eich deal ganddynt? ateb y ffôn?

ddarllen ac ysgrifennu llythyron?

**Amser bwyd** – oes angen help arnoch i:

fwyta ac yfed?

**Help gyda thriniaeth feddygol** – oes angen help arnoch i:

adnabod eich tabledi?

darllen a deall cyfarwyddiadau am gymryd meddyginiaeth?

roi meddyginiaeth neu driniaeth i chi eich hun?

reoli cyflwr fel diabetes?

wybod a yw eich cyflwr yn gwaethygu?

- addasu eich cymorth clyw?
- ddelio â sgîl-efeithiau eich meddyginiaeth?

**Goruchwyliaeth** – oes angen rhywun i'ch goruchwyllo:

- rhag ofn eich bod yn cael trawiad neu lewyg?
- oherwydd bod gennych ddiffyg ymwybyddiaeth o berygl?
- oherwydd gallech fod yn berygl i chi eich hun neu eraill?
- rhag ofn eich bod yn drysu, anghofio neu'n ffwdro?
- i roi meddyginiaeth i chi ar gyfer angina neu byliau o asthma?
- i helpu i'ch tawelu yn ystod pwl o banig?

**Symud o gwmpas o dan do** – oes angen help arnoch i:

- ddefnyddio grisiau?
- codi o gadair?
- fynd i mewn i a chodi o'r gwely?
- symud yn ddiogel o ystafell i ystafell?

**Gwybodaeth ategol**

Efallai bod gennych wybodaeth am eich iechyd a'r help sydd ei angen arnoch gan nifer o wahanol bobl. Gallai hyn gynnwys:

- llythyron gan eich meddyg teulu neu feddyg ymgynghorol
- eich cynllun gofal gan eich cyngor lleol neu ymddiriedolaeth - yn rhoi gwybodaeth am yr help sydd ei angen arnoch

- adroddiad gan eich therapydd galwedigaethol - yn rhoi gwybodaeth am yr offer a'r addasiadau sydd eu hangen arnoch
- gwybodaeth gan Nyrs Seiciatrig Gymunedol
- llythyron apwyntiadau
- rhestrau presgripsiynau

Gallwch anfon yr wybodaeth hon gyda'ch cais.

## Os gofynnir i chi am fwy o wybodaeth

Unwaith y byddwch wedi dychwelyd y ffurflen, efallai y bydd y swyddog gwneud penderfyniadau o'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), eich meddyg neu rywun a nodwyd gennych ar y ffurflen yn cysylltu â chi i ofyn am fwy o wybodaeth neu i drefnu bod meddyg yn ymweld â chi. Yng Ngogledd Iwerddon, penderfynwr o'r Adran Cymunedau (DfC) fydd hwn.

Os yw meddyg a benodwyd gan y DWP neu'r DfC yn dod i'ch gweld, gall eich gofalwr fod yn bresennol gyda chi yn ystod yr apwyntiad.

Efallai bydd y meddyg eisiau eich archwilio a gofyn cwestiynau pellach i chi. Mae'n syniad da nodi'r pethau rydych eisiau dweud wrth y meddyg amdanynt ymlaen llaw.

## Os oes gennych salwch angheuol

Mae rheolau arbennig yn caniatáu i bobl sy'n angheuol sâl gael help yn gyflym. Fe'ch ystyrir fel bod yn angheuol sâl os oes gennych salwch sy'n gwaethygu ac sy'n debygol o gyfyngu eich disgwyliad oes i chwe mis neu lai. Mae'n amhosibl dweud yn union pa mor hir bydd rhywun yn byw, a bydd rhai pobl sy'n derbyn Lwfans Gweini o dan y rheolau hyn yn byw yn llawer hirach na chwe mis.

O dan y rheolau arbennig hyn, nid oes rhaid i chi fodloni'r cyfnod cymhwysu (hy eich bod wedi bod yn anabl neu wedi bod yn sâl am o leiaf chwe mis). Hefyd, nid oes rhaid eich bod wedi bod yn bresennol ym Mhrydain Fawr am y 104 o wythnosau allan o'r 156 diwethaf cyn gwneud cais - mae angen i chi fod yn bresennol ar adeg gwneud y cais yn unig.

Os ydych yn hawlio Lwfans Gweini o dan y rheolau hyn, dylai eich cais gynnwys ffurflen DS1500 sydd ar gael gan eich meddyg teulu neu feddyg ymgynghorol. Byddwch chi (neu'r unigolyn sy'n gwneud y cais ar eich rhan) yn derbyn cyfeiriad rhadbost ar gyfer y DS1500 pan fyddwch yn gwneud y cais dros y ffôn.

Ni fydd rhaid i chi gwblhau'r rhan o'r ffurflen hawliad sy'n gofyn am eich anghenion gofal personol neu oruchwyliaeth, gan y byddwch yn gymwys yn awtomatig i dderbyn y gyfradd uwch o Lwfans Gweini.

**▶▶ Noder:** O dan y rheolau arbennig, gellir gwneud hawliad ar ran person heb eu caniatâd. Ni fydd y llythyr am yr arian a ddyfarnwyd yn sôn am reolau arbennig.

## Y penderfyniad

Byddwch yn derbyn penderfyniad ysgrifenedig ynghylch eich hawliad, sy'n nodi pa gyfraddau budd-dal a ddyfarnwyd ac o ba ddyddiad.

Gellir dyfarnu Lwfans Gweini am gyfnod penodedig neu am gyfnod amhenodol. Os dyfarnir y budd-dal i chi am gyfnod penodedig, bydd y penderfyniad yn nodi pan fydd y budd-dal yn dod i ben. Bydd ffurflen gaisnewydd yn cael ei hanfon atoch yn bell cyn bod cyfnod eich budd-dal yn dod i ben.

## Herio'r penderfyniad

Os gwrthodir eich cais am Lwfans Gweini neu dyfarnir cyfradd is na'r hyn roeddech yn ei ddisgwyl, gallwch ofyn i'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) (Cymru, Lloegr a'r Alban) neu'r Adran Cymunedau (DfC) (Gogledd Iwerddon) i ystyried y penderfyniad eto. Mae'n rhaid i chi wneud hyn cyn eich apêl. Gelwir hyn yn ailystyriaeth orfodol.

Os ydych yn dal i anghytuno unwaith iddynt wneud hyn, mae'n rhaid i chi gyflwyno apêl gyda'r Gwasanaeth Tribiwnlys (Cymru, Lloegr a'r Alban) neu'r Gwasanaeth Apeliadau (TAS) (Gogledd Iwerddon), ac atodi copi o'r hysbysiad ailystyriaeth gorfodol gyda'r apêl.

Mae'n bwysig herio penderfyniad neu dderbyn cyngor cyn gynted â phosibl, oherwydd ceir cyfyngiadau amser sy'n gyffredinol yn golygu bod rhaid i chi weithredu o fewn un mis. Os nad ydych yn gweithredu o fewn y terfyn amserhwn, mae posibilrwydd o hyd y gellir herio'r penderfyniad. I gael mwy o wybodaeth ynghylch apelio am benderfyniad budd-dal, ewch i [www.carersuk.org/appealsguide](http://www.carersuk.org/appealsguide)

## **Beth i'w wneud os bydd eich amgylchiadau'n newid**

Os ydych yn derbyn y gyfradd is o Lwfans Gweini ar gyfer naill ai anghenion dydd neu nos, a bod yr help sydd ei angen arnoch yn cynyddu fel bod gennych anghenion dydd a nos, gallwch gysylltu â'r DWP (neu Disability and Carers Service yng Ngogledd Iwerddon) a gofyn i'ch achos gael ei ystyried eto. Bydd gofyn i chi gwblhau ffurflen, sy'n rhoi manylion o sut mae eich anghenion wedi newid.

Os byddwch yn gofyn iddynt ystyried dyfarniad Lwfans Gweini eto, mae posibilrwydd bob amser y gallai'r dyfarniad gael ei leihau yn hytrach na'i gynyddu, felly mae bob amser yn syniad da cael help gan asiantaeth cyngor leol cyn i chi gysylltu â'r DWP (neu'r Disability and Carers Service yng Ngogledd Iwerddon). I gael mwy o wybodaeth am asiantaethau cyngor yn eich ardal, ewch i'r adran Help Ychwanegol.

## **Mynd i aros mewn ysbyty, cartref gofal neu hosbis**

Dylech chi neu rywun sy'n gweithredu ar eich rhan hysbysu'r DWP (neu'r Disability and Carers Service yng Ngogledd Iwerddon) hefyd os ydych wedi mynd i mewn i'r ysbyty, cartref gofal neu hosbis, neu wedi eich carcharu, gan y gall hyn effeithio ar eich budd-dal.

## **Mynd i aros mewn ysbyty**

Mae Lwfans Gweini'n dod i ben ar ôl i chi dreulio 28 diwrnod mewn ysbyty.

## **Mynd i aros mewn cartref gofal**

Nid yw Lwfans Gweini yn daladwy ar ôl y 28 diwrnod cyntaf mewn cartref gofal, oni bai eich bod yn cyllido eich hun yn gyfan gwbl.

Mae rheolau arbennig yn berthnasol os yw eich cyngor yn ariannu eich cyfnod mewn cartref preswyl dros dro tra eich bod yn gwerthu eich cartref blaenorol. Gofynnwch am gyngor os ydych yn y sefyllfa hon. Parheir i dalu Lwfans Gweini hefyd os ydych mewn cartref nyrsio a'r unig help rydych yn ei dderbyn gyda'ch ffioedd yw swm a elwir yn Gyfraniad Gofal Nyrsio Cofrestredig gan y GIG.

Os ydych yn byw yn yr Alban ac yn derbyn gofal personol am ddim tuag at ofal preswyl, bydd eich Lwfans Gweini yn dod i ben ar ôl 28 diwrnod. I gael gwybod mwy am ofal personol am ddim, cysylltwch â Care Information Scotland ar

**0800 011 3200** neu drwy e-bostio [careinfoscotland.scot](mailto:careinfoscotland.scot).

## **Y rheol cysylltu**

Ychwanegir unrhyw gyfnodau mewn ysbyty neu gartref gofal gyda bwllch o 28 diwrnod neu lai rhyngddynt at ei gilydd pan gyfrifir pryd y dylai Lwfans Gweini ddod i ben.

## **Mynd i mewn i hosbis**

Telir Lwfans Gweini yn gyffredinol o hyd os ydych yn angheuol sâl ac mewn hosbis.

## Help ychwanegol y gallech fod yn gymwys ar ei gyfer

### Budd-daliadau prawf modd a chredydau treth

Os ydych yn derbyn budd-daliadau prawf modd neu gredydau treth (fel Cymhorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, Lwfans Ceisio Gwaith seiliedig ar incwm, Credyd Pensiwn, Credyd Cynhwysol, Budd-dal Tai, Gostyngiad yn y Dreth Gyngor neu Gredydau Treth Gwaith), gall derbyn Lwfans Gweini olygu y byddwch yn gymwys i dderbyn cynnydd yn eich budd-daliadau neu gredydau treth.

Os ydych chi neu'ch partner yn derbyn budd-daliadau prawf modd neu gredydau treth yn barod, rhowch wybod i bob un o'r swyddfeydd sy'n eu talu i chi eich bod chi nawr yn derbyn Lwfans Gweini. Gall derbyn Lwfans Gweini olygu hefyd eich bod yn gymwys i dderbyn budd-daliadau prawf. Felly os dyfarnir Lwfans Gweini i chi, byddai'n syniad da cael gwiriad budd-daliadau.

Efallai y dilëir unrhyw ddi-dyniadau a wneir o fudd-daliadau prawf modd oherwydd bod oedolion eraill yn rhannu eich cartref os ydych yn derbyn Lwfans Gweini. Gallwch dderbyn gwybodaeth am ba fudd-daliadau y mae gennych hawl iddynt a faint y dylech ei dderbyn, drwy gael gwiriad budd-dal ar-lein drwy gysylltu â Llinell Gymorth Carers UK:

[advice@carersuk.org](mailto:advice@carersuk.org)

▶▶ **Noder:** Gallwch gael gwiriad budd-daliadau ar-lein wedi'i bersonoli, er enghraifft, yn: [benefits-calculator.turn2us.org.uk/AboutYou](https://benefits-calculator.turn2us.org.uk/AboutYou). Bydd yn cymryd tua 20 munud i'w gwblhau.

Nid yw'r offer ar-lein hyn yn addas i bawb. Mae rheolau arbennig yn gymwys i rai grwpiau o bobl, er enghraifft myfyrwyr, pobl o dan 18 oed, pobl mewngofal preswyl parhaol, dinasyddion y DU sy'n byw dramor a phobl nad ydynt yn ddinasyddion Prydeinig neu Wyddelig.



## Eithriadau o'r cap ar fudd-dal

Bydd cartrefi'n cael eu heithrio o'r cap ar fudd-dal pan fyddwch chi neu eich partner yn gymwys i gael Lwfans Gweini.

## Cynllun y Bathodyn Glas

Mae cynllun y Bathodyn Glas yn caniatáu i bobl sydd ag anableddau cerdded difrifol barcio mewn ardaloedd parcio cyfyngedig. Er enghraifft, os oes bathodyn gennych, gallwch barcio am ddim ac am unrhyw gyfnod o amser ar y stryd lle ceir meter parcio ac mewn ardaloedd talu ac arddangos ar y stryd.

Mae rhai sefyllfaoedd lle byddwch yn gymwys yn awtomatig i gael Bathodyn Glas. Am ragor o wybodaeth, ewch i:  
[gov.uk/government/publications/blue-badge-can-i-get-one](http://gov.uk/government/publications/blue-badge-can-i-get-one)

Nid yw cael Lwfans Gweini yn golygu eich bod yn gymwys yn awtomatig i gael Bathodyn Glas. Fodd bynnag, efallai y byddwch yn dal yn gymwys i gael Bathodyn Glas (yn amodol ar asesiad pellach gan eich cyngor neu ymddiriedolaeth) os yw un o'r canlynol yn berthnasol:

- Bod gennych anabledd parhaol neu sylweddol sy'n golygu na allwch gerdded neu eich bod yn ei chael hi'n anodd iawn cerdded
- Bod gennych anableddau difrifol yn rhan uchaf eich corff yn y ddwy fraich, yn gyrru cerbyd modur ac yn ei chael hi'n anodd defnyddio meteri parcio
- (Yr Alban yn unig) Nid ydych yn gallu cerdded, neu bron ddim yn gallu cerdded oherwydd anabledd dros dro ond sylweddol, sy'n debygol o bara am o leiaf 12 mis ond llai na thair blynedd.
- (Yr Alban yn unig) Mae gennych gyflwr meddyliol, sy'n golygu bod gennych ddiffyg ymwybyddiaeth o berygl traffig wrth fynd ar deithiau.

## Consesiynau trafnidiaeth gyhoeddus

Os ydych yn byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban ac yn derbyn Lwfans Gweini, efallai y byddwch yn gallu prynu Cerdyn Rheilffordd Person Anabl. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch **0345 605 0525** (ffôn testun 0345 601 0132) neu ewch i [disabledpersons-railcard.co.uk](http://disabledpersons-railcard.co.uk). Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon ac yn 60 oed neu'n hŷn, efallai y byddwch yn gymwys i gael SmartPass neu Senior Citizens SmartPass. Cysylltwch â Translink i gael rhagor o wybodaeth ar **028 9066 6630** neu ewch i [translink.co.uk](http://translink.co.uk)

Os ydych yn byw yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon ac yn anabl, efallai y byddwch yn gymwys i deithio am ddim ar fysiau lleol, er nad yw hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â p'un a ydych yn derbyn Lwfans Gweini ai peidio. Cysylltwch â Translink, eich cyngor neu eich ymddiriedolaeth i gael rhagor o wybodaeth. Os ydych yn byw yn yr Alban ac yn derbyn Lwfans Gweini, byddwch yn gallu teithio ar fysiau am ddim. Dysgwch fwy yn [www.transport.gov.scot/concessionary-travel/60plus-or-disabled/](http://www.transport.gov.scot/concessionary-travel/60plus-or-disabled/)

## Hawl cydymaith (Yr Alban yn unig)

Os ydych yn derbyn Lwfans Gweini, byddwch yn gymwys i gael Cerdyn Cydymaith, sy'n caniatáu i gydymaith deithio gyda chi am ddim. Dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol neu fynd i wefan Transport Scotland i gael rhagor o wybodaeth: [transport.gov.scot/concessionary-travel/60plus-and-disabled/](http://transport.gov.scot/concessionary-travel/60plus-and-disabled/)

## Preswyliaeth a phresenoldeb

I fodloni'r profion preswyliaeth a phresenoldeb, mae'n rhaid i chi gwrdd â'r ddau amod canlynol:

- mae'n rhaid eich bod wedi bod yn bresennol ym Mhrydain Fawr (sydd i'r diben hwn hefyd yn cynnwys Gogledd Iwerddon) am 104 o wythnosau allan o'r 156 o wythnosau cyn gwneud cais (dwy allan o'r tair blynedd diwethaf)
- mae'n rhaid mai Prydain Fawr yw eich preswylfan arferol

Mae 'presennol' yn golygu'n bresennol yn gorfforol ym Mhrydain Fawr, er ygellid ystyried rhai pobl fel bod ym Mhrydain Fawr tra eu bod dramor, ee aelodau o'r lluoedd arfog. Mae rheolau arbennig yn berthnasol i wledydd yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) a sawl un arall y mae gan Brydain gytundebau â nhw. Os ydych yn meddwl bod hyn yn berthnasol i chi, dylech ofyn am gyngor. Gall y Ganolfan AIRE roi cyngor ynghylch hawliau unigol yn Ewrop, a gellir cysylltu â nhw ar **020 7831 4276** neu drwy e-bostio [info@airecentre.org](mailto:info@airecentre.org).

Y prawf preswylfan arferol yw prawf i weld a ydych fel arfer yn byw yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Gweriniaeth Iwerddon neu Ynys Manaw. Defnyddir y prawf os ydych wedi bod yn byw dramor. Ni cheir diffiniad cyfreithiol manwl o 'breswylfan arferol'. Ffactorau perthnasol yw lle rydych fel arfer yn byw, lle rydych yn disgwyl byw yn y dyfodol, eich rhesymau dros ddod i'r wlad hon, hyd y cyfnod a dreuliwyd dramor cyn i chi ddod yma, ac unrhyw gysylltiadau sydd gennych o hyd â'r wlad lle rydych wedi dod ohoni.

## Help ychwanegol

Mae ein gwefan yn cynnwys cyfoeth o wybodaeth ddefnyddiol am y materion ariannol ac ymarferol sy'n gysylltiedig â gofalu. Ewch i [carersuk.org/](http://carersuk.org/) a chliciwch ar "Help and Advice" yn y brif ddewislen. Gallwch ddod o hyd i fanylion eich sefydliad gofalwyr lleol ar ein gwefan yn [www.carersuk.org/local-support](http://www.carersuk.org/local-support)

Am wybodaeth a chynghor, cysylltwch â Llinell Gymorth Carers UK ar **0808 808 7777** neu e-bostiwch [advice@carersuk.org](mailto:advice@carersuk.org).

## Sefydliadau eraill

### Age UK

Elusen sydd wedi ymrwymo i helpu pawb i wneud y gorau o'u bywydau'n ddiweddarach yn eu hoes.

**g:** [www.ageuk.org.uk](http://www.ageuk.org.uk) | **ff:** 0800 678 1602 (*Lloegr*), 0800 022 3444 (*Cymru*), 0800 124 4222 (*yr Alban*), 0808 808 7575 (*Gogledd Iwerddon*)

### Y Gwasanaeth Apeliadau, Gogledd Iwerddon

Y gwasanaeth sy'n ymdrin â'r broses apelio ar gyfer penderfyniadau budd-daliadau yng Ngogledd Iwerddon.

**g:** [www.nidirect.gov.uk/articles/appealing-against-a-benefits-decision#toc-10](http://www.nidirect.gov.uk/articles/appealing-against-a-benefits-decision#toc-10)

### Cynghor ar Bopeth

Yn rhoi cynghor annibynnol, cyfrinachol, diduedd am ddim.

*Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon*

**g:** [www.citizensadvice.org.uk](http://www.citizensadvice.org.uk)

### Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

I chwilio am lys neu dribiwnlys yng Nghymru neu Loegr neu dribiwnlys yn yr *Alban*

**g:** <https://courtribunalfinder.service.gov.uk/search/>

### Archwiliwr Achos Annibynnol

Gwasanaeth adolygu cwynion am ddim i bobl sydd wedi cwyno am eu

cais am fudd-daliadau. *Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon*  
g: [www.ind-case-exam.org.uk](http://www.ind-case-exam.org.uk) | ff: 0800 414 8529 (ffôn testun: 18001 0800 414 8529)

### Ombwdsmon Gogledd Iwerddon

Swyddog y llywodraeth sy'n gyfrifol am ddelio â chwynion am wasanaethau'r wladwriaeth. (*Gogledd Iwerddon*)

g: <https://nipso.org.uk/> ff: 0800 343424 (ffôn testun: 028 9089 7789)

### Ombwdsman Seneddol a Gwasanaeth Iechyd

Swyddog y llywodraeth sy'n gyfrifol am ddelio â chwynion am wasanaethau'r wladwriaeth. *Cymru, Lloegr a'r Alban*

g: [www.ombudsman.org.uk](http://www.ombudsman.org.uk)

ff: 0345 015 4033

(ffôn testun: 0300 061 4298)

### Llinellau cymorth budd-daliadau

Mae gan Ogledd Iwerddon dair llinell gymorth at ddibenion gwahanol:

*Llinell Ymholiadau Budd-daliadau* ar gyfer cwestiynau cyffredinol

ff: 0800 220 674 (ffôn testun: 028 9031 1092)

*Llinell Gymorth Newidiadau Lles* i gael cyngor annibynnol ar newidiadau i fudd-daliadau ff: 0808 915 4604

*Make the Call* - i wirio nad ydych yn colli allan ar fudd-daliadau

ff: 0800 232 1271

Yng Ngogledd Iwerddon, mae un cyswllt ar gyfer Lwfans Gweini, Lwfans Gofalwr a Lwfans Byw i'r Anabl, sef Disability and Carers Service Gogledd Iwerddon:

ff: 0800 587 0912 (ffôn testun: 0800 012 1574)

### Lwfans Gweini

*Cymru, Lloegr a'r Alban*

ff: 0800 731 0122 (ffôn testun: 0800 731 0317)

### Uned Lwfans Gofalwr

*Cymru, Lloegr a'r Alban*

ff: 0800 731 0297 (ffôn testun: 0800 731 0317)

**Lwfans Byw i'r Anabl**  
*Cymru, Lloegr a'r Alban*

Os cawsoch eich geni ar neu cyn Ebrill 8 1948:

ff: 0800 731 0122 (ffôn testun: 0800 731 0317)

Os cawsoch eich geni ar ôl Ebrill 8 1948:

ff: 0800 121 4600 (ffôn testun: 0800 121 4523)

**Ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith, Cymhorthdal Incwm a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth:**

**Jobcentre Plus** (*Cymru, Lloegr a'r Alban*)

Hawliadau newydd ff: 0800 055 6688 (ffôn testun: 0800 023 4888)

Hawliadau presennol ff: 0800 169 0310 (ffôn testun: 0800 169 0314)

**Swyddfa Nawdd Cymdeithasol neu Swyddi a Budd-daliadau** (Gogledd Iwerddon)

Manylion y swyddfeydd lleol: [g: nidirect.gov.uk/contacts/jobs-benefits-offices](https://nidirect.gov.uk/contacts/jobs-benefits-offices)

Hawliadau ESA newydd ff: 0800 085 6318 (ffôn testun: 0800 328 3419)

Hawliadau presennol ff: 0800 587 1377 (ffôn testun: 0800 328 3419)

**Credyd Pensiwn a Gwasanaeth**

**Pensiwn**

(*Cymru, Lloegr a'r Alban*)

Hawliadau newydd ff: 0800 731 7898 (ffôn testun: 0800 731 7339)

Hawliadau presennol: ff: 0800 731 0469 (ffôn testun: 0800 731 0464)

**Gogledd Iwerddon**

Hawliadau newydd (Credyd Pensiwn) ff: 0808 100 6165 (ffôn testun: 0800 587 0892)

Hawliadau presennol (Credyd Pensiwn) ff: 0800 587 0892

Hawliadau newydd (Pensiwn y Wladwriaeth) ff: 0808 100 2658

Hawliadau presennol (Pensiwn y Wladwriaeth) ff: 0800 587 0892 (ffôn testun: 0808 100 21 98)

**Taliad Annibyniaeth Personol**

(*Cymru, Lloegr a'r Alban*)

Hawliadau newydd: ff: 0800 917 2222 (ffôn testun: 0800 917 7777)

Llinell ymholiadau ff: 0800 121 4433 (ffôn testun: 0800 121 4493)

**Gogledd Iwerddon**

Hawliadau newydd ff: 0800 012 1573 (ffôn testun 0800 012 1574)

Llinell ymholiadau ff: 0800 587 0932 (ffôn testun 0800 587 0937)

### Credydau Treth

(Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon) ff:  
0345 300 3900 (ffôn testun: 0345 300 3909)

### Llinell Gymorth Credyd Cynhwysol

(Cymru, Lloegr a'r Alban)

ff: 0800 328 5644 (ffôn testun: 0345 300 3900)

(Gogledd Iwerddon)

ff: 0800 012 1331 (ffôn testun: 0800 012 1441)

Nodyn i'r Alban: Erbyn diwedd 2020, bydd **Nawdd Cymdeithasol yr Alban** yn agored i hawliadau newydd yn unig ar gyfer Cymorth Anabledd i Bobl Hŷn, a fydd yn disodli'r Lwfans Gweini. Bydd mwy o fanylion ar gael yn: [www.carersuk.org/scotland](http://www.carersuk.org/scotland)

Nod y daflen wybodaeth hon yw rhoi gwybodaeth a chyngor defnyddiol. Nid yw'n ddatganiad awdurdodol o'r gyfraith. Rydym yn gweithio i sicrhau bod ein taflenni gwybodaeth yn gywir ac yn gyfredol, ond mae gwybodaeth am fudd-daliadau a gofal yn y gymuned yn agored i newid dros amser. Byddem yn argymhell cysylltu â Llinell Gymorth Carers UK, neu fynd i'n gwefan i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Rhowch eich adborth ar y daflen ffeithiau hon drwy e-bostio eich sylwadau i: [info@carersuk.org](mailto:info@carersuk.org). Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ym mis Ebrill 2023. Dyddiad yr adolygiad nesaf - Ebrill 2024.

## Llinell gymorth Carers UK

I gael gwybodaeth a chyngor arbenigol am ofalu.



**0808 808 7777**

(dydd Llun i ddydd Gwener, 10am - 4pm)



[advice@carersuk.org](mailto:advice@carersuk.org)

**Carers UK**

20 Great Dover Street

Llundain SE1 4LX

020 7378 4999

[info@carersuk.org](mailto:info@carersuk.org)

**Gofalwyr Cymru**

029 2081 1370

[info@carerswales.org](mailto:info@carerswales.org)

**Carers Scotland**

[info@carerscotland.org](mailto:info@carerscotland.org)

**Carers Northern Ireland**

028 9043 9843

[info@carersni.org](mailto:info@carersni.org)

**Sut bynnag mae gofalu'n**

**effeithioarnoch, rydym yma i chi.**

Bydd gofalu'n effeithio ar bob un ohonom ar ryw adeg yn ein bywydau.

Gyda'ch help, gallwn gefnogi 6,000 o bobl sy'n dechrau gofalu am rywun bob dydd.

Ni yw'r unig elusen aelodaeth genedlaethol yn y DU i ofalwyr; ymunwch â ni am ddim yn

Rydym yn rhwydwaith cefnogi yn ogystal â mudiad dros newid. Ewch i'n gwefan i ymuno â ni, i'n helpu neu i gael mynediad at fwy o adnoddau:

[carersuk.org/join](https://carersuk.org/join).

**Gellir gofyn am yr wybodaeth hon mewn print mawr neu fel ffeil destun**